# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Beverley Hopkins | Adran Etholiadol: | Glandŵr |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliais 4 cymhorthfa bob mis yn y ward. Euthum i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) y 3 ardal heddlu'n rheolaidd. Gyda'm cydweithiwr ward, aethom am sawl tro yn y ward i drafod yr ardaloedd problemus a chwrdd wedyn i drafod y materion perthnasol.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 2 / 7 | 29% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 1 / 2 | 50% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Cymunedau | 1 / 3 | 33% |
| Y Cyngor | 17 / 17 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 / 7 | 86% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Pobl | 1 / 2 | 50% |
| CYFFREDINOL | 28 / 38 | 74% |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 8 / 12 | 67% |
| Panel Ymchwilio Craffu Cludiant Cyhoeddus | 0 / 1 | 0% |
| CYFFREDINOL | 8 / 13 | 62% |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Ar ben y rhai a restrwyd yn 2 uchod, euthum hefyd i'r canlynol:

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (C.Y.S.A.G.)
Canolfan Gymunedol yr Hafod
Cyfarfodydd Corff Llywodraethu'r Hafod a Phlasmarl
Chymunedau'n Gyntaf (Clwstwr y De)
Cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT)
Cyfeillion Parc yr Hafod
Cyfleoedd Chwarae Rhyngweithiol Rhieni'r Hafod

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi bod yn rhan o gamau 2 a 3 hirddisgwyliedig Ffordd Ddosbarthu'r Morfa. Hefyd, gweithiais gyda Llywodraeth Cymru wrth ddod â darpariaeth Dechrau'n Deg fawr ei hangen i Ysgol Gynradd Plasmarl. Gweithiais gyda Chyfleoedd Chwarae Rhyngweithiol Rhieni'r Hafod. Grŵp a Chyfeillion Parc yr Hafod. Rwyf hefyd wedi mynd i sawl cyfarfod â rheolwyr Stadiwm Liberty mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r problemau parcio niferus yn y ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Roeddwn, ac rwy'n parhau, i ymddiddori'n fawr mewn addysg gan mai plant yw ein dyfodol ac rwy'n achub ar gynifer o gyfleoedd ag y bo modd i gael mynediad i hyfforddiant.

Rwyf wedi defnyddio fy sgiliau cyfathrebu da i wrando ar ein hetholwyr i geisio datrys eu problemau niferus wrth iddynt godi.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Hoffwn i'n hetholwyr wybod ein bod ar gael i dderbyn cwynion neu broblemau sydd ganddynt ar unrhyw adeg, nid yn y cymorthfeydd rydym yn eu cynnal yn unig.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 27.05.15 |